**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 163 - Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.6 ac iau (D)

**Sara Mair a Lleidr y Neidr' gan Casia William**

(*Gellir newid cenedl y cymeriadau a'r dafodiaeth)*

*Tri cymeriad – Mam, Sara, Oli*

| | |
|---|---|
| Mam | 'Da ni yn disgwyl aelod newydd i'r teulu |
| Sara | Babi? |
| Mam | Na Sara, nid babi. Nid y math yna o aelod newydd. |
| | Dyma'r aelod newydd. Peithon albino porffor (*dangos llun ar sgrin*) |
| Oli a Sara | Waw. |
| Mam | Ia waw. Maen nhw'n brin iawn, iawn, ac yn ddrud hefyd. A dweud y gwir dyma un o'r nadroedd mwyaf drud yn y byd – petai rhywun am ei phrynu hi. |
| Oli | Be, fel anifail anwes? |
| Mam | Ia, dyna yn union oedd hi - anifail anwes. Ond roedd y gwaith o edrych ar ei hôl yn ormod i rhywun. |
| Oli | Sut wyt ti'n gwybod hynny? |
| Mam | Roedd yr RSPCA ar y ffôn rwan. Mae rhywun wedi ffeindio'r neidr … mewn toilet. |
| Y ddau | Mewn toilet?! |
| Oli | Dwi wedi darllen am hyn. Mae lot o bobl yn rhoi nadroedd i lawr y toliet i gael gwared arnyn nhw, yn does? |
| Mam | Oes Oli. Ti'n iawn. Ac mae'r nadroedd yn licio llefydd cul a thywyll. Ond |

mae'n beth gwirion i wneud.

Sara Felly ym mha doilet ddaeth rhywun o hyd i'r peithon yma? Peithon oeddet ti'n ei galw mam?

MAM Peithon albino porffor.Yn lle bod yn wyn mae'r neidr yma'n troi'n rhyw liw porffor. Fel welwch chi yn y llun.

Oli Ond ym mha doilet?

Mam Cwestiwn da. Roedd y neidr yma yn nhoilet…. Pennaeth eich ysgol!!!

Y ddau Be?! Na!!!

Mam Wir! Heb air o gelwydd.

Sara Ydy'r RSPCA are eu ffordd?

Mam Mae nhw ar eu ffordd yma rŵan.

Oli Efo'r neidr?

Mam Efo'r neidr.

Sara Beth yw ei faint?

Mam Tua tair troedfedd.

Oli Beth hwy ei oed?

Mam Ddim yn fabi ond ddim yn oedolyn, teenager felly.

Sara Fel Seb.

Mam Ia, fel dy frawd.

Oli Da chi angen help?

Mam Oes. Mae nadroedd yn hoffi brigau i'w dringo.

Sara Mae na lot yn y storfa. Awn ni chwilio.

Mam Bydd yr RSPCA yma yn gyflym.

Oli Well i ni ddechrau neu fydd gan y neidr nunlle i fyw.

Sara Geith o groeso heb eu hail yn sw Halibalw!